


**Adroddiad am:**

# **Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (Rhan un)**

**Ac am ba mor dda a diogel y  
mae'r gwasanaethau mamolaeth**



Fersiwn darllen hawdd




Gallwch ddarllen yr adroddiad  
llawn ar ein gwefan

[www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)



Gallwch ofyn am gopi o'r  
adroddiad

E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)



Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ



Ffôn:

0300 062 8163



Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn annibynnol ac yn cadw llygad ar yr holl wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.



Rydyn ni wedi edrych ar wasanaethau mamolaeth ar draws Cymru, sy'n rhoi gofal i fenywod pan fyddant yn cael babis.




Roedden ni eisiau gwirio pa mor dda y mae'r gwasanaethau mamolaeth ac os ydyn nhw'n ddiogel.



Fe wnaethon ni hyn achos roedd rhai problemau mewn rhai ysbytai yn y gorffennol.



Mae ein hadolygiad llawn ni mewn dwy ran. Mae'r adroddiad hwn yn siarad am ran un. Bydd rhan dau yn dechrau ar ddiwedd 2020.




# COVID-19



Digwyddodd rhan un yr adolygiad rhwng Gorffennaf 2019 ac Ionawr 2020, cyn i COVID-19 ddechrau.



Dydy ein hadolygiad ddim wedi gwirio sut mae gwasanaethau mamolaeth wedi gweithio ers i COVID-19 ddechrau.



# Beth roedden ni eisiau darganfod.

Roedden ni eisiau gwybod:



- Sut mae menywod yn teimlo am eu gofal mamolaeth
- Sut mae gofal mamolaeth yn cael ei roi
- Os yw gofal mamolaeth yn ddiogel ac yn ddigon da o'r dechrau tan y diwedd. Hynny yw, o'r amser pan fydd menyw yn mynd yn feichiog tan y cyfnod ar ôl i'w babi gael ei geni
- Os yw staff mamolaeth yn cael y gefnogaeth iawn i wneud eu swyddi.



## Pa wasanaethau mamolaeth sydd ar gael?



Mae gwasanaethau mamolaeth ar gael i fenywod a'u teuluoedd ym mhob rhan o Gymru.



Gall menywod ddewis ble maen nhw eisiau cael eu babi. Mae hyn yn gallu bod mewn ysbyty neu yn eu cartrefi.



Os bydd menywod yn dewis cael eu babi mewn ysbyty, maen nhw'n gallu dewis un mewn ardal wahanol i ble maen nhw'n byw.

## Beth gwnaethon ni




Fe arolygon ni'r holl wasanaethau mamolaeth ar draws Cymru i weld sut maen nhw'n gwneud pethau.




Edrychon ni ar y gwasanaeth mamolaeth sy'n cael ei roi i fenywod pan fyddan nhw'n feichiog, yn esgor, yn rhoi genedigaeth, ac ar ôl cael y babi.

Pan wnaethon ni'r arolygiadau, roedden ni eisiau gwybod:



- Os esboniodd staff mamolaeth am y gofal sydd ar gael i fenywod a'u teuluoedd
- Os yw menywod yn derbyn gofal diogel a da
- Os yw staff yn gwneud eu swyddi'n dda ac yn gweithio gyda'i gilydd
- A fydd y gofal yn parhau'n dda yn y dyfodol
- Os oes rheolaeth dda yn y gwasanaethau mamolaeth.






Edrychion ni ar lawer o waith papur.



Gofynnion ni gwestiynau i lawer o staff a menywod gwahanol am y gofal mamolaeth.



Gwnaethon ni gyfweiliadau gyda staff uwch mewn ysbytai.



Gwnaethon ni 2 arolwg ar draws Cymru hefyd a chawson ni atebion gan:

- 3303 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth
- 564 o staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth.

Cymerodd llawer o arbenigwyr gwahanol ran yn yr adolygiad.




Cawson ni gymorth gan sefydliadau sy'n cefnogi menywod a phlant hefyd.



Rydyn ni eisiau diolch i bawb a helpodd ni i wneud yr adolygiad yma.





## Dyma'r wybodaeth a gawson ni

Mae staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth yn ymroddedig i ddarparu'r gofal gorau i fenywod a theuluoedd.



Mae'r gofal yn dda, ac yn gyffredinol mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu'n ddiogel.



Cytunodd y bobl a gwblhaodd ein harolwg cyhoeddus â hyn.



Roedden nhw'n hapus ac yn dweud pethau da am y gofal a'r gefnogaeth a gawson nhw.

Mae staff yn gweithio'n galed i wneud i fenywod deimlo'n dda am eu hymweliadau nhw â'r gwasanaethau mamolaeth.



## Roedden ni eisiau gwybod:



- Os yw gofal mamolaeth yn seiliedig ar wybodaeth dda



- Os oes gan staff wybodaeth dda



- Os yw gofal wedi'i gynllunio ar gyfer pob menyw unigol



- Os yw gwasanaethau'n gweithio gyda'r teulu cyfan i wneud y cynlluniau.

## Dyma'r hyn y dywedon nhw:



- Roedd y mwyafrif o fenywod yn hapus gyda'r gofal a chyfathrebu a gawson nhw gan y gwasanaethau trwy gydol eu beichiogrwydd.



- Gwelon ni fod y gefnogaeth a chyingor a roddwyd gan staff mamolaeth yn dda, fel y gallai menywod wneud dewisiadau am eu gofal.

Clywon ni rai storïau am fenywod sy'n achosi gofid:



- Teimlo'n unig
- Bod pobl ddim yn gwrando arnyn nhw
- Cael eu gadael mewn poen.



Doedd rhai menywod ddim yn teimlo y gallen nhw ddweud beth roedden nhw eisiau dweud am eu dewisiadau rhoi genedigaeth.



Weithiau, mae problemau meddygol yn golygu nad yw pobl yn gallu rhoi genedigaeth yn y ffordd y maen nhw eisiau. Mae angen edrych ar hyn yn fwy manwl.



Mae angen gwneud mwy i helpu menywod i siarad yn eu hiaith eu hunain pan fyddan nhw'n cael gofal mamolaeth.



Mae angen i fenywod gael cyfle i ddweud sut maen nhw'n teimlo achos y gall beichiogrwydd a rhoi genedigaeth fod yn frawychus.



Nid yw pob gwasanaeth mamolaeth yn gadael i aelodau teulu ymweld â menywod pan fyddan nhw eisiau.



Rydyn ni'n credu y dylai fod ymweliadau agored ym mhob uned famolaeth.

Mae hynny'n golygu y dylai fod yn bosib i ymwelwyr ddod pryd bynnag y mae'r fenyw eisiau gweld nhw.



Dywedodd rhai menywod yr oedd gormod o weithwyr iechyd yn gofalu amdany'n nhw pan roedden nhw'n feichiog.



Gwnaeth hyn iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus achos na chawson nhw'r cyfle i ddod i nabod staff.



Roedd yn rhaid i rai pobl adrodd eu hanes meddygol dro ar ôl tro i bobl wahanol.

Weithiau roedd hynny'n gynhyrfiol.



Rydyn ni'n gwybod y gall fod yn anodd i sicrhau bod yr un staff yn gofalu am yr un fenyw trwy gydol eu beichiogrwydd. Ond rydyn ni'n teimlo y dylai hwn gael ei archwilio ar draws Cymru.



Mae neges gref yng Nghymru bod bwydo ar y fron yn bwysig. Mae hynny'n dda.



Clywon ni nad oes dim digon o gefnogaeth ar gyfer menywod sydd eisiau bwydo eu babi ar y fron.

Mae nifer bach o staff a gormod o waith. Mae angen gwella hynny.



Gwelon ni nad oedd digon o gefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer menywod beichiog a menywod sydd â babi newydd.



Os nad ydyn nhw'n derbyn cefnogaeth iechyd meddwl mae'n gallu achosi problemau.

Gall y problemau barhau am amser hir ac effeithio ar y teulu cyfan.



Rydyn ni'n credu y dylid edrych ar, a gwella, cefnogaeth iechyd meddwl mewn gwasanaethau mamolaeth.



Mae'r byrddau iechyd i gyd yn gwneud gwaith da i gefnogi menywod os bydd eu babi yn marw.



Clywon ni fod staff yn cael eu hyfforddi'n dda am hyn ond ei fod yn anodd cael yr hyfforddiant ar yr amser iawn.



Rydyn ni'n credu ei fod yn bwysig iawn i fyrddau iechyd rannu'r hyn y maen nhw'n dysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Dylai byrddau iechyd rannu'r newidiadau y maen nhw'n eu gwneud pan fydd menywod a theuluoedd yn rhoi adborth iddyn nhw hefyd.





## Ydy menywod yng Nghymru'n derbyn gofal da a diogel?



Mae llawer yn digwydd i roi gofal da a diogel i fenywod sy'n cael babis yng Nghymru.



Rydyn ni'n pryderu am ddiogelwch mewn rhai gwasanaethau.



Does dim digon o wiriadau ar:

- Offer argyfwng arbenigol
- Beth ddylai ddigwydd mewn argyfwng
- Y lleoedd lle mae gofal yn cael ei roi
- Cadw babis newydd yn ddiogel
- Cadw llygad ar feddyginiaeth.





Mae menywod a babis yn cael eu rhoi mewn perygl pan nad yw'r gwiriadau pwysig yn digwydd.



Pan ddwedon ni wrthyn nhw am beth roedden ni wedi darganfod, dywedodd yr holl fyrddau iechyd wrthyn ni beth fyddan nhw'n gwneud i gywiro pethau.



Gwelon ni fod gwasanaethau mamolaeth yn dda wrth gadw pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.



Maen nhw'n dda pan fydd angen cefnogaeth arbennig. Gallai hyn fod ar gyfer:



- Merched yn eu harddegau sy'n feichiog
- Ceiswyr lloches
- Menywod sydd wedi cael eu cam-drin.



## Ydy menywod yn derbyn gofal gan dimau sydd â'r sgiliau iawn?

Mae llawer o waith fîm da a pherthnasoedd gwaith da.



Mae cyfathrebu da rhwng timau mamolaeth. Mae hyn yn helpu staff i roi gofal da.

Gwelon ni lawer o syniadau da a phethau yn eu lle i wneud y gwasanaeth yn well.



Roedd staff yn gweithio ar brosiectau newydd i gefnogi mamau a babis hefyd.



Mae angen i fyrddau iechyd wneud mwy i helpu rhannu'r syniadau da hyn ar draws Cymru.



Mae hyn yn bwysig achos i lawer o fenywod ddweud bod angen mwy o gefnogaeth arnyn nhw ar ôl cael eu babi.



Rydyn ni'n meddwl bod y cynllun ar gyfer hyfforddi staff yn iawn.



Mae prinder staff ac amser yn golygu na all rhai staff wneud eu hyfforddiant ychwanegol ar amser bob tro.




## A fydd gofal mamolaeth yn aros yr un mor dda ag y mae nawr?



Mae staff mewn gwasanaethau mamolaeth bob amser yn ceisio gwneud eu gorau glas, ond does dim digon o bobl i sicrhau bod gofal bob amser yn ddiogel.



Mae staff o dan straen ac yn flinedig o ganlyniad i ormod o waith a dim digon o amser i wneud e i gyd.



Maen nhw'n gwneud llawer o waith ychwanegol pan fydd angen nhw hefyd.



Os ydyn nhw o dan ormod o straen ac yn rhy flinedig mae'n bosib na fydd y gofal yr un mor dda neu ddiogel ag y dylai fod.



Mae'n broblem sy'n anodd i'w datrys ond mae'n rhaid i fyrddau iechyd wneud popeth y gallan nhw i roi gofal da a diogel trwy'r amser.



## Ydy gwasanaethau mamolaeth yn cael eu rhedeg yn dda?



Os yw gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn dda mae menywod yn fwy tebygol o dderbyn gofal da.



Yn gyffredinol fe welon ni wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan arweinwyr ymroddedig ac sydd bob amser yn ceisio cyflwyno'r gofal gorau posib.

Maen nhw'n gweithio'n galed i sicrhau bod menywod a theuluoedd yn cael eu trin yn dda iawn. Mae'r mwyafrif o fenywod yn hapus gyda hyn.



Gwelon ni fod cleifion yn cael eu rhoi mewn perygl weithiau.



Mae hyn yn gwneud i ni boeni am sut mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu rhedeg.

Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod yr un gofal da a diogel yn cael ei roi ym mhob rhan o Gymru.



Gwelon ni fod byrddau iechyd yn adrodd am bethau sydd wedi mynd o chwith.

Mae angen iddyn nhw rannu beth maen nhw'n dysgu o hynny gyda'r staff.



Trwy wneud hynny bydd pawb yn dysgu gwersi pwysig am roi'r gofal gorau.



Mae'n bwysig iawn i staff deimlo'n ddiogel i ddweud os oes problem.

Mae angen iddyn nhw wybod y bydd pobl yn gweithio i gywiro pethau.

Mae'n rhaid i fyrddau iechyd wneud i hyn ddigwydd.



Mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau nad yw staff yn cael eu gwneud i deimlo'n wael am bwyntio problemau allan.



**Rydyn ni wedi gwneud llawer o argymhellion i fyrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i wneud gofal yn fwy diogel.**



**Argymhellion ar gyfer byrddau iechyd:**

### **Argymhelliad 1**



Sicrhau bod menywod yn gwybod y gallan nhw ofyn am wybodaeth a chefnogaeth yn yr iaith y maen nhw'n dewis.



### **Argymhelliad 2**

Sicrhau y gall menywod gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis.

### **Argymhelliad 3**



Meddwl am sut y gellir darparu genedigaeth mewn dŵr ar draws yr holl unedau.



#### **Argymhelliad 4**

Sicrhau bod menywod yn cwrdd â'r un gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.



#### **Argymhelliad 5**

Meddwl am gael rhywun sy'n gyfrifol am helpu menywod i roi'r gorau i ysmegu.



#### **Argymhelliad 6**

Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i rannu gwybodaeth am fyw yn fwy iach.



#### **Argymhelliad 7**

Sicrhau bod digon o gyngor a chefnogaeth ar gael trwy'r amser ar fwydo ar y fron.



#### **Argymhelliad 8**

Edrych ar y gefnogaeth iechyd meddwl maen nhw'n ei darparu i fenywod a pha mor dda y mae.

## Argymhelliad 9



Mae gan un bwrdd iechyd wasanaeth o'r enw PRAMS. Mae hyn yn cefnogi mamau newydd sydd o bosib yn dioddef problemau iechyd meddwl. Dylai'r holl fyrddau iechyd edrych ar gael gwasanaeth fel PRAMS.



## Argymhelliad 10

Sicrhau y gall staff gael hyfforddiant am beth i'w wneud pan fydd babis yn marw.



## Argymhelliad 11

Meddwl am sut i sicrhau eu bod yn dysgu o brofiadau menywod. Rhannu beth sydd wedi newid ar ôl gwrando ar adborth.



## Argymhelliad 12

Rhannu storïau cleifion yn well gyda'r bwrdd a'r pwyllgorau ansawdd a diogelwch.



## Argymhelliad 13

Sicrhau eu bod nhw'n gwirio'r offer diogelwch argyfwng.



### **Argymhelliad 14**

Sicrhau bod staff yn gwybod beth i wneud pan fydd argyfwng meddygol.



### **Argymhelliad 15**

Sicrhau bod staff yn gwybod sut i gadw menywod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r pwll genedigaeth mewn dŵr.



### **Argymhelliad 16**

Sicrhau bod yr holl wasanaethau'n lân, yn daclus ac yn ddiogel.



### **Argymhelliad 17**

Sicrhau bod mesurau rheoli haint da yn eu lle.



### **Argymhelliad 18**

Sicrhau bod yr holl gemegolion peryglus yn cael eu storio mewn man diogel.



### **Argymhelliad 19**

Sicrhau bod staff yn gwybod sut i storio meddyginiaeth yn ddiogel.



### **Argymhelliad 20**

Mae gan fyrddau iechyd bolisiau am roi meddyginiaeth ac mae angen dilyn y rhain.



### **Argymhelliad 21**

Meddwl am glinigau i gefnogi menywod sydd wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod.

### **Argymhelliad 22**



Pan fydd rhywbeth yn mynd o chwith mae'r bwrdd iechyd yn ymchwilio i'r rheswm. Dylid rhannu'r gwersi hyn gyda'r staff i gyd.

### **Argymhelliad 23**



Sicrhau bod staff yn teimlo y gallan nhw ddweud eu dweud pan fydd rhywbeth yn mynd o chwith. A bod nhw ddim yn poeni am gael cerydd.



### **Argymhelliad 24**

Mae byrddau iechyd yn defnyddio dangosfyrddau i adrodd pa mor dda maen nhw'n gwneud. Dylai byrddau iechyd gytuno i ddefnyddio'r un dangosfwrdd ar draws Cymru.



### **Argymhelliad 25**

Sicrhau bod yr holl bolisiâu'n cael eu diweddarau a bod staff yn gwybod pan fydd polisiâu newydd.



### **Argymhelliad 26**

Mae rhai bydwagedd yn cynorthwyo gyda llawdriniaeth. Dylent gael eu hyfforddi'n briodol i wneud hyn.



### **Argymhelliad 27**

Meddwl am gael bydwagedd eirioli i gefnogi ffyrdd gwell o weithio.

### **Argymhelliad 28**


Mae gan rai byrddau iechyd fonitorau i wirio calon y babi trwy'r amser. Mae hwn yn syniad da a dylai'r holl fyrddau iechyd gael nhw.





### **Argymhelliad 29**

Sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant da mewn da bryd.



### **Argymhelliad 30**

Sicrhau bod cynlluniau'n bodoli i atal staff rhag gweithio gormod o oriau.



### **Argymhelliad 31**

Meddwl am sut i wobrwyo staff sy'n gwneud gwaith da.



### **Argymhelliad 32**

Sicrhau bod cofnodion da a nodiadau cleifion da yn cael eu cadw.




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:



### Argymhelliad 1

Sicrhau bod gan staff gofnod cyfrifiadurol ar gyfer pob menyw.



### Argymhelliad 2

Meddal am weithio yn yr un ffordd ar draws Cymru i stopio babis rhag cael eu cymryd yn anghyfreithlon.




### Argymhelliad 3

Sicrhau bod dangosfwrdd mamolaeth sengl ar gyfer Cymru gyfan.



### Argymhelliad 4

Dylai sgiliau a phrofiad staff gael eu gwirio trwy arfarniad. Dylai fod system arfarnu Cymru gyfan.



### Argymhelliad 5

Edrych ar y cynllun sy'n cefnogi nyrsys a bydwragedd newydd i ennill sgiliau, cefnogaeth a phrofiad newydd.



## Beth rydyn ni wedi penderfynu



Ar sail ein hadolygiad, rydyn ni'n meddwl bod ansawdd y gofal a roddir i fenywod a theuluoedd mewn gwasanaethau mamolaeth ar draws Cymru'n dda ar y cyfan.



Mae gofal yn cael ei roi gan grwpiau ymroddedig o staff mamolaeth, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i wella rhai pethau.

1	✓
2	✓
3	✓
4	✓

Mae rhai negeseuon clir ar gyfer arweinwyr gwasanaethau mamolaeth, i wella gwasanaethau.

Mae angen gwneud mwy i sicrhau:



- Bod menywod yn cael eu clywed a bod pobl yn gwrando arnyn nhw




- Bod trefniadau'n cael eu gwella ar gyfer sicrhau diogelwch unedau mamolaeth a'u bod yn cael eu rhedeg yn dda



- Nad yw'r ffordd y mae problemau'n cael eu hadrodd a'u harchwilio wneud i staff deimlo'n bryderus neu ar fai



- Dylai pawb ddysgu o broblemau neu gamgymeriadau i'w stopio rhag digwydd eto.




## Beth sy'n digwydd nesaf?




Rydyn ni eisiau i fyrddau iechyd ar draws Cymru feddwl am beth gwelon ni a beth rydyn ni'n dweud y dylai ddigwydd.



Rydyn ni eisiau iddyn nhw ddefnyddio'r adroddiad hwn i wneud gwasanaethau mamolaeth yn well.



3 mis ar ôl yr adroddiad hwn mae angen i'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru anfon cynllun aton ni.



Dylai'r cynllun ddweud sut y byddan nhw'n gwneud pethau'n well.



## Bydd yr ail ran o'n gwaith yn dechrau ym mis Tachwedd 2020



Byddwn ni'n edrych ar:

- y gofal y mae timau bydwragedd cymunedol yn ei roi
- y gofal y mae menywod yn ei dderbyn ar ôl i fabi gael ei eni cyn iddynt weld ymwelydd iechyd
- newidiadau ers ein harolygiadau.



Rydyn ni eisiau darganfod:



- pa fath o brofiad mae menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwraig gymunedol yn ei gael
- pa fyrddau iechyd ar draws Cymru sy'n rhoi gwasanaethau mamolaeth da a diogel.